# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 2 Chwefror 2012** |
| Amser: | **10: – 12:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2012(1)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)**<br>**Ross Davies, Rheolwr Cydraddoldeb (Swyddog)**<br>**Ian Summers (Swyddog)**<br>**Mike Snook, National Assembly for Wales (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1. Cyflwyniad

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am Eitem 2 yn y cofnodion. Ar 13 Ionawr 2012, ysgrifennodd Rhodri Glyn Thomas AC at y Llywydd yn gofyn am ei phenderfyniad ynghylch a oedd y Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) arfaethedig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ysgrifennodd hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i roi hysbysiad ynghylch y bwriad i gyflwyno'r Bil. Cafodd y Bil ei gyflwyno ar 30 Ionawr.

Diolchodd y Comisiynwyr i'r swyddogion am eu gwaith ar y Bil a'r Cynllun a'r ymgynghoriad a oedd yn gysylltiedig â hwy.

Mae swyddogion yn gweithio ar bob un o'r camau eraill.

Cytunwyd ar y cofnodion yn ffurfiol.

## 2. Cynllun Cydraddoldeb Comisiwn y Cynulliad 2012-16

Diolchodd y Llywydd i Ross Davies am lunio a chyflwyno gwybodaeth ar gyfer Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall a nododd bod safle'r Cynulliad wedi gwella eto eleni i fod yr 20fed lle mwyaf ystyriol o bobl hoyw i weithio yn y DU, a'r trydydd yn y DU yn y categori Llywodraeth. Mynegodd y Comisiynwyr eu llongyfarchiadau i bawb oedd wedi cymryd rhan, yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud â'r rhwydwaith staff, sydd hefyd yn cynnwys staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, ac a ddaeth i'r brig yn y categori rhwydwaith gorau Cymru eleni.

Cyflwynwyd y papur ar y cynllun cydraddoldeb gan Sandy Mewies AC.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2012 yn nodi bod angen i'r Comisiwn gyhoeddi ei amcanion cydraddoldeb erbyn mis Ebrill 2012. Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb 2012-16, mewn ymgynghoriad ag Aelodau, eu staff a staff y Cynulliad, yn ogystal â phartneriaid allanol a rhanddeiliaid, i gynnwys dyletswyddau cyfreithiol y Comisiwn mewn cysylltiad â chydraddoldeb, ethos corfforaethol y Comisiwn, rolau a chyfrifoldebau, ein hamcanion mwyaf blaenllaw, y fethodoleg ar gyfer ymgynghori ar y cynllun a chynllun gweithredu. Er bod rhai o'r camau yn cynrychioli meysydd gwaith newydd, mae llawer ohonynt yn adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma i ymgorffori cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad.

Y Tîm Cydraddoldeb fydd yn cefnogi ac yn monitro'r Cynllun, unwaith y cytunir arno. Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Comisiwn ar gynnydd yn ôl y Cynllun bob mis Ebrill.

Canmolodd y Comisiynwyr y dulliau ymgynghori trwyadl a fu ar waith wrth ddatblygu'r cynllun a nodwyd ei fod yn adeiladu ar sylfeini cadarn. Trafodwyd y bydd angen sicrhau bod digon o ddata ar gael i fonitro'r cynllun, yn arbennig mewn cysylltiad â chyfansoddiad y gweithlu.

Cytunwyd bod y cynllun yn ddarn o waith sylweddol a thrwyadl. Diolchwyd i'r tîm Cydraddoldeb a phawb a fu'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r strategaeth am eu hymdrechion hyd yma.

Cytunwyd ar y Cynllun Cydraddoldeb 2012-16 yn ffurfiol gan y Comisiwn.

**Cam i'w gymryd:** Swyddogion i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerir i wella dulliau monitro'r gweithlu. Bydd adolygiad llawn o'r cynllun ym mis Ebrill 2013.

## 3. Adolygu effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad

Cytunodd y Comisiwn ar ei egwyddorion llywodraethu a'r darpariaethau ategol ym mis Mehefin 2011. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i werthuso effeithiolrwydd y Comisiwn fel corff, yn hytrach nag effeithiolrwydd y sefydliad cyfan. Cytunwyd y byddai'r gwerthusiad ffurfiol cyntaf yn digwydd ymhen tua deuddeg mis.

O 2011-12 ymlaen, mae'n ofynnol i adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiwn gynnwys Datganiad Llywodraethu, a fydd, ymhlith pethau eraill, yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y sefydliad cyfan.

Trafodwyd yr amserlen arfaethedig a'r fethodoleg ar gyfer cynnal y gwerthusiad, a chytunwyd arnynt. Yn benodol, nodwyd y bydd yr adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr hydref 2012. Proses ailadroddus fydd hon, yn nodi meysydd ar gyfer gwelliant a gaiff eu monitro'n barhaus. Bydd wedi'i seilio ar dystiolaeth a gesglir gan yr Aelodau a rhanddeiliaid eraill yn ogystal â gwybodaeth a ddarperir gan y Comisiynwyr eu hunain.

Cytunwyd mai Ian Summers fyddai'n cynnal y gwerthusiad, gan weithio gyda Mair Barnes, ac y bydd y dull gweithredu'n cael ei amlinellu yn y Datganiad Llywodraethu yn y Cyfrifon ar gyfer 2011-12.

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddeddfwriaeth Cymru Ar-lein

Bu'r Comisiwn yn ystyried dyfodol y gefnogaeth ariannol a ddarperir ganddo ar gyfer gwefan Deddfwriaeth Cymru Ar-lein, yng ngoleuni: yr amcanion a bennwyd gan y Comisiwn yn 2008 ac yn benodol y cynnydd a wnaed i gael "Llyfr Statud i Gymru"; y ffaith nad yw'r wefan wedi cael sicrwydd ynglŷn ag arian tymor hir o ffynonellau eraill i alluogi cynnydd sylweddol i gael ei wneud yn hyn o beth, ac; cynlluniau eraill

Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella hygyrchedd cyfreithiau Cymru, fel y cyhoeddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ar 5 Hydref 2011.

Nododd y Comisiwn y ganmoliaeth roedd y wefan wedi'i chael gan ystod ehangach o gyrff dros y blynyddoedd, a chytunwyd bod y safle wedi gwneud cyfraniad defnyddiol i ddealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda chefnogaeth y Comisiwn. Fodd bynnag, wrth edrych i'r dyfodol, roedd y Comisiwn yn teimlo mai'r ffordd orau o sicrhau ei gyfraniad at wella hygyrchedd y cyhoedd i gyfreithiau Cymru oedd drwy ddatblygu'r wybodaeth a ddarparwyd ar wefan y Cynulliad ei hun. Gofynnodd y Comisiwn am gael y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wneir yn hyn o beth.

Penderfynodd y Comisiwn i beidio â pharhau i ddarparu cefnogaeth ariannol i Ddeddfwriaeth Cymru Ar-lein a rhoddodd ganiatâd i'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol gymryd y camau angenrheidiol i roi'r penderfyniad hwn ar waith cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol bosibl.

## 5. Strategaeth ar gyfer gwobrwyo staff y Cynulliad

Bydd cytundeb cyflog presennol y Comisiwn ar gyfer staff yn dod i ben ar 31 Mawrth 2012. Trafodwyd y strategaeth taliadau newydd a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2012, a phwysleisiodd y Comisiynwyr y byddai'n bwysig ystyried y cyd-destun economaidd anodd a ffactorau perthnasol eraill. Bydd y strategaeth yn ganllaw ar gyfer trafodaethau â'r undebau llafur ac yn sail i drefniadau taliadau yn y dyfodol.

## 6. Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn

Cyflwynwyd adroddiad y Bwrdd Rheoli gan Claire Clancy.

Roedd y papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion allweddol o fewn pob un o'r amcanion strategol, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid a manylion y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i law ers yr adroddiad diwethaf gan y Bwrdd Rheoli. Y mis hwn, roedd cofnodion cyfarfod diwethaf Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad hefyd yn atodedig i'r adroddiad er gwybodaeth.

Trafodwyd yr eitemau a ganlyn:

**Y contract rheoli cyfleusterau**
Yn dilyn proses dendro gystadleuol, dyfarnwyd y contract rheoli cyfleusterau i Norland Managed Services Ltd am bum mlynedd o 1 Ebrill 2012, gydag opsiwn i'w ymestyn am un flwyddyn arall. Mae'r contract yn cynnwys gwaith cynnal a chadw a rheoli ystâd y Cynulliad, cyngor ar yr ystâd, gwasanaethau proffesiynol a glanhau ffenestri, ac mae'n cynnwys gwariant o tua £925,000 bob blwyddyn.

Hefyd bu'r Comisiynwyr yn trafod y dull o ymdrin â chaffael yn fwy cyffredinol, a chytunwyd y dylai'r mater fod yn eitem ar yr agenda mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Y cynllun diswyddo gwirfoddol**

Cynigir cynllun ymadael gwirfoddol cyfyngedig i holl staff y Cynulliad. Cynlluniwyd y cynllun i sicrhau bod modd i nifer staff y Comisiwn a'i strwythur staffio ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf yn ystod y Pedwerydd Cynulliad drwy alluogi'r sefydliad i ymateb i newidiadau yn ein gofynion o ran sgiliau, gwella effeithlonrwydd y gweithlu, hwyluso newid sefydliadol, a darparu arbedion tymor hir lle bo modd. Pwysleisiodd y Comisiynwyr mor bwysig yr oedd bod y penderfyniadau a wneir yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a bod darpariaeth talu'n ôl i'r sefydliad.

Hefyd cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am y modd o fynd i'r afael â'r problemau TGCh parhaus. Eglurodd Claire Clancy ei bod wedi ysgrifennu at yr uwch reolwyr yn Atos yn mynegi ei phryder difrifol ynghylch safonau'r gwasanaeth a'r problemau parhaus, gan gynnwys methiant y system e-bost ar 18 Ionawr. Dechreuodd Atos weithredu cynllun i wella'r gwasanaeth ar unwaith.

Bydd Peter Black AC, ynghyd â swyddogion y Comisiwn, yn cyfarfod ag aelodau unigol i gasglu tystiolaeth ar y problemau y mae Aelodau yn eu hwynebu er mwyn sicrhau y caiff y rhain sylw fel rhan o'r cynllun gwella'r gwasanaeth.

## 7. Rhaglen Dreigl Comisiwn y Cynulliad

Nodwyd y rhaglen dreigl.

## 8. Unrhyw Fusnes Arall

Gofynnodd y Comisiynwyr am gyfarfod preifat â'r Prif Weithredwr ar ôl cyfarfod y Comisiwn.